# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 3 EBRILL 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Jenkins, Lent a/ac Molik |

## 74 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Carter a'r Cynghorydd Goddard.

## 75 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw rai.

## 76 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 77 : PERFFORMIAD CHWARTER 3 2018/19 – CRAFFU AR WAITH MONITRO PERFFORMIAD O ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER TRI.

Croesawyd y Cynghorydd Lynda Thorne (Aelod Cabinet – Tai a Chymunedau), y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet – Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau), Claire Marchant (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) a Louise Barry (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion) i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddent yn ystyried Perfformiad Chwarter 3 mewn dwy ran:

Byddai'r rhan gyntaf yn ystyried y perfformiad perthnasol gan y Gyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau a'r ail ran yn ystyried perfformiad gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thorne i wneud datganiad lle dywedodd ei bod yn falch o weld bod Cam 1 o Gynllun Byw Caerdydd yn mynd rhagddo'n dda, a bod eiddo newydd yn cael ei drosglwyddo, ac mae camau 2 a 3 o'r cynllun hefyd mewn trafodaethau ar ôl cynnal adolygiad lefel uchel o'r camau.

Mae'r niferoedd sydd angen cymorth gyda Chredyd Cynhwysol wedi mwyn tu hwnt i'r targedau a bennwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, fodd bynnag, mae staff wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y galw'n cael ei ddiwallu ar draws y ddinas. Mae dros 3,600 o bobl wedi cael cymorth gyda'u ceisiadau am Gredyd Cynhwysol rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr.

Hyd yma, nodwyd bod 115 o ymyriadau wedi helpu pobl sy'n cysgu ar y stryd i gael llety, er bod hyn ychydig yn is na tharged y gwaith aml-asiantaeth rhagorol i leihau pebyll o amgylch canol y ddinas, mae ymgysylltu â'r unigolion hynny gyda chymorth a dod â hwy i lety yn parhau.

Ers mis Ebrill mae 72% o'r rhai dan fygythiad o ddigartrefedd wedi cael eu hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref, gan ragori ar y targed ar gyfer y flwyddyn.

Ychwanegodd y Cynghorydd Thorne ei bod yn falch o weld y gwaith ar yr Hyb Lles Cymunedol yn symud ymlaen, cwblhawyd yr ailstrwythuro cysylltiedig yn ystod Chwarter 3, ac yn ogystal cymeradwywyd arian grant Llywodraeth Cymru yn y chwarter ar gyfer Hyb Ieuenctid Butetown, sef datblygiad pellach o'r model Hyb.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Cynghorydd Elsmore wneud datganiad lle dywedodd ei bod yn fodlon iawn ar y cydweithio a oedd yn digwydd; cafodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd eu gwahodd i'r ARC ac roedd yn falch bod targedau cadarnhaol yn cael eu cyrraedd, gan nodi bod mwy i'w wneud bob amser.

Ar ôl hynny, cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Berfformiad Chwarter 3 ac yna gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau os oedd ganddynt gwestiynau a sylwadau:

**Y Gyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau**

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am Blant yn Gyntaf a dywedwyd wrthynt fod hyn yn sicrhau ymyrraeth gynnar er mwyn meithrin cydnerthedd, sydd beth a waned o fewn Gwasanaethau Oedolion wrth newid cydbwysedd y gofal.

Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn adroddiad da iawn ond nid oedd yn rhoi gwybodaeth am y llinell amser na'r gwaith monitro. Dywedodd swyddogion eu bod am i'r strategaeth fod ar waith yn gyntaf, ac y byddai cynllun gweithredu ar gyfer yr holl bartneriaid yn cael ei ddatblygu. Roedd Bwrdd wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid a byddai'r cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu drwy'r Bwrdd hwn er mwyn sicrhau cefnogaeth.

Trafododd yr Aelodau y targedau a gofynnwyd sut y cawsant eu pennu. Dywedodd swyddogion fod y targedau'n cael eu pennu bob blwyddyn gan y Cynllun Corfforaethol, yna'n cael eu nodi'n chwarterol drwy'r cynllun cyflenwi gwasanaeth. Mae aelodau o'r farn y byddai'n dda gweld adrodd ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n briodol ar draws y ddinas. Roedd Aelodau hefyd o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r naratif yn cyfeirio at yr adroddiad perfformiad ei hun.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y Strategaeth ar gyfer y rhai sy'n Cysgu ar y Stryd a'r cynllun peilot llwyddiannus ar Dai yn Gyntaf, gan ofyn a fyddai hyn bellach yn cael ei gyflwyno. Dywedodd swyddogion eu bod yn gwerthuso'r cynllun peilot a bod pob lleoliad ond un wedi'i gynnal a oedd yn llwyddiant ysgubol. Mae i'r cynllun lawer o rinweddau ond y mater allweddol yw cael y llety cywir gyda'r lefel o gefnogaeth ddwys ac mae angen sefydlu sut y cyflawnir hyn. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau eu bod yn defnyddio'r sector tai rhentu preifat ar hyn o bryd ac mae angen mwy o landlordiaid arnynt gyda thai cymdeithasol, ac yr oedd yn rhaid cadw'r ddysgl yn wastad gan ei bod yn bwysig ystyried y rheini sydd ar y rhestrau aros, ond ychwanegwyd hefyd y pwysau sydd ar y bobl hynny sydd am symud i le llai.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Gam-drin Domestig Dynion a gofynnwyd pam y bu oedi o ran hyn. Eglurwyd bod llawer o waith i'w wneud ar hyn, roedd y gwasanaeth wedi'i ganoli ar fenywod a phlant ac roedd diffyg cydraddoldeb ac roedd angen mynd i'r afael â hyn; roedd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn awyddus i weithio gyda Chaerdydd

ar hyn a rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddent yn gweld cynigion cynhwysfawr a fyddai'n diwallu anghenion y cymunedau.

Gan gyfeirio at unedau gwag, gofynnodd yr Aelodau a oedd contractiwr newydd ar gael ac fe'u cynghorwyd bod perfformiad wedi gwella ychydig; nodwyd bod hwn yn faes heriol iawn ac roeddent ar hyn o bryd yn datblygu gwasanaeth mewnol yn ogystal â bod mewn trafodaethau gyda chontractwr arall hefyd gan eu bod yn canolbwyntio'n fawr ar unedau gwag fel problem.

Nododd yr Aelodau fod yr amser ail-osod yn 89 diwrnod a bod yr amser ail-osod cyflym dros 30 diwrnod; ac ystyriai fod hyn yn amser hir. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw waith meincnodi wedi'i wneud yn hyn o beth. Dywedodd swyddogion fod angen llawer o waith ar rai eiddo cyn y gellir eu hail-osod, ond roeddent yn cytuno nad oedd y cyfnodau hyn yn ddigon da o ran perfformiad a bod angen gwneud gwaith i fynd i'r afael â hyn. Mae Cymdeithasau Tai'n perfformio'n llawer gwell. Roedd yr Aelodau'n ystyried bod hwn yn fater pwysig i fynd i'r afael ag ef o ran y mater ariannol ac oherwydd yr holl bobl ar y rhestr aros.

**Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion**

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau ar berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol - Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Oedolion ac yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau;

Bu'r Aelodau'n trafod contractau â sefydliadau gwirfoddol a gofynnwyd am enghreifftiau o'r rhain. Roedd yr Aelodau'n bryderus y gallai fod perygl i sefydlogrwydd y gwasanaeth pe byddai dibyniaeth ar sefydliadau gwirfoddol. Eglurodd swyddogion ei bod yn gadarnhaol gweithio gyda'r trydydd sector gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau; o ran sefydlogrwydd, mae’r un faint o ddiwydrwydd dyladwy yn cael ei ddefnyddio â sefydliadau eraill y mae'r Cyngor yn gweithio gyda nhw. Mae enghreifftiau o bartneriaethau yn cynnwys Age Connect a'r Alzheimer’s Society Cymru. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at ran 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mewn perthynas â phartneriaethau a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru am ei weld o ran gwerth cyfraniadau'r trydydd sector, gan ychwanegu o ran Gwerth Cymdeithasol bod y trydydd sector a mentrau cymdeithasol yn bwysig iawn ac yn ffurfio tua 20%. O ran sefydlogrwydd gwasanaethau, nodwyd bod y bartneriaeth ag Anabledd Dysgu yn gontract 5 mlynedd, gydag opsiwn o doriad contract ar ôl 3 blynedd. Enghraifft arall o bartneriaeth oedd ‘Innovative Trust’ sy'n darparu'r dechnoleg i gynorthwyo pobl ag anghenion gofal cymdeithasol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at ffioedd a gofynnwyd a oeddent wedi'u pennu bellach ac nad oedd perygl mwyach y byddent yn cael eu herio'n gyfreithiol. Eglurodd swyddogion y gallai fod risg o hyd o her gyfreithiol oherwydd y dyddiadau, ond bod y ffioedd wedi'u pennu; dysgwyd llawer o wersi gan fod y ffioedd yn cael eu gosod yn rhy hwyr yn y flwyddyn ariannol; Roedd angen ymgysylltu ac ymgynghori'n briodol â'r sector wrth symud ymlaen.

Holodd yr Aelodau ynghylch nifer y pryderon sydd wedi’u hesgoli a nododd y swyddogion eu bod yn gweithio yn ôl canllawiau statudol a bod y nifer yng nghyd-destun nifer y darparwyr i'w ddisgwyl; caiff materion eu nodi ac mae cynlluniau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â nhw; roedd yn bwysig cefnogi

darparwyr i fynd i'r afael â phryderon a oedd wedi cynyddu drwy waith partneriaeth cryf.

Gan gyfeirio at yr adroddiad, roedd yr Aelodau yn ei chael yn anodd monitro'r perfformiad oherwydd diffyg targedau a dangosyddion perfformiad allweddol; dywedodd swyddogion y gallent gynnwys y rheini yn yr adroddiad, maent ar gael yn y Broses Cynllunio Gorfforaethol a chroesawyd sylwadau ar fformat yr adroddiad.

Bu'r Aelodau'n trafod y Panel Sicrhau Ansawdd ac eglurodd yr Aelod Cabinet fod awdurdodau lleol eraill wedi defnyddio'r dull hwn, mae'n seilwaith da i sicrhau cydymffurfiaeth, arfer gorau ac i ychwanegu camau gweithredu/camau unioni, gan sicrhau cysondeb.

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

78 : DIWEDDARIAD AR DDIOGELU OEDOLION

Croesawyd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet – Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles), Claire Marchant (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) a Louise Barry (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion) i’r cyfarfod.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Cynghorydd Elsmore wneud datganiad lle dywedodd ei bod wrth ei bodd bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gosod Diogelu Oedolion ar yr un sail â Phlant; roedd llawer o waith manwl yn cael ei wneud yn y maes hwn.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Ddiogelu Oedolion ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n debygol y byddai'r staff yn cael eu lleoli yn yr Hyb Diogelu Aml-asiantaeth yn barhaol. Dywedodd swyddogion fod angen dull aml-asiantaeth o ran y ffordd orau o fynd i'r afael â hyn, nid oedd yn gwbl angenrheidiol i'r staff gweithio'n gorfforol yn yr Hyb Diogelu Amlasiantaeth, y gwaith aml-asiantaeth oedd yr agwedd bwysig.

Trafododd yr Aelodau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r cyfeiriad yn y cyflwyniad fod staff wedi cael trafferth dehongli'r ddeddfwriaeth newydd, a gofynnwyd a oedd hyn wedi cael effaith negyddol net ar y gwasanaethau a ddarperir. Sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau fod unrhyw faterion diogelu yn cael sylw ar unwaith, mai'r cyfnod pontio o Ddiogelu Oedolion Agored i Niwed i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r oedi wrth gyhoeddi'r codau ymarfer oedd yr her.

Nododd Aelodau'r cynnydd o 25% mewn atgyfeiriadau a bod 50% o'r rheini yn atgyfeiriadau amhriodol. Eglurodd swyddogion fod archwiliad yn cael ei gynnal i roi gwybodaeth am yr atgyfeiriadau a gafodd eu sgrinio allan fel rhai amhriodol, gan ei bod yn bwysig gwybod beth oedd y materion cyflwyno i edrych ar y galw am gapasiti yn y dyfodol.

Nododd yr Aelodau fod nifer yr ymholiadau yr ymdriniwyd â hwy o fewn 7 diwrnod yn gostwng a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i liniaru hyn. Esboniodd

swyddogion y bu rhai materion gweithdrefnol mewn perthynas â phan ddechreuodd y dyddiad yn y system TG, a bod rhai dyddiadau wedi'u dechrau'n anghywir oherwydd yr anghysondeb hwn yn y system. Mewn achosion eraill gall fod oedi wrth aros am wybodaeth a all gymryd dros 7 diwrnod.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd hyfforddiant ar gael i gynyddu ymwybyddiaeth o ran oedolion o leiafrifoedd ethnig mewn perygl. Eglurodd swyddogion fod hyn wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant a gomisiynwyd a'i fod yn elfen ar wahân yn yr hyfforddiant hwnnw hefyd i ddarparu lefel optimaidd o hyfforddiant. Ychwanegwyd bod hyfforddiant Diogelu Corfforaethol yn cael ei gynnig i bob rheolwr a bod hyfforddiant penodol ar gyfer amddiffyn oedolion ar gyfer rheolwyr yn y Gwasanaethau Oedolion. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet hefyd ei bod hi a'i chydweithwyr yn y Cabinet yn cyfarfod â swyddogion bob 6/8 wythnos i sicrhau bod yna gydgysylltu rhwng Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion ac y bydd y Cynghorydd Weaver hefyd yn ymuno â nhw fel Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 79 : STRATEGAETH ADEILADU TAI CYNGOR

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne (Aelod y Cabinet dros Dai a Chymunedau); Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau), a David Jaques (Rheolwr Datblygu Tai) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thorne i wneud datganiad lle dywedodd ei bod yn dymuno diolch i swyddogion am y gwaith a wnaed i gyrraedd y cam hwn a bod mewn sefyllfa lle maent ar y safle ac yn dechrau prosiectau.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Strategaeth Adeiladu Tai Cyngor, ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Gofynnodd yr Aelodau a oedd opsiynau effeithlonrwydd ynni a di-garbon wedi'u hystyried. Eglurodd swyddogion eu bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn a'u bod wedi ymrwymo i gyflwyno adroddiad i'w ddefnyddio gan y diwydiant i edrych ar y cymhlethdodau a'r costau ac ati. Y safon bresennol yw 'Fabric First' sydd 17% yn uwch na'r safon ofynnol; y cam nesaf yw ‘Passivhaus’ fel y'i defnyddir yn natblygiad Highfields. Byddai'r cam nesaf wedyn yn ddi-garbon ac mae'r Cyngor yn ymrwymedig iddo yng nghyfnod nesaf Caerdydd Fyw.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd colled golwg yn ystyriaeth wrth edrych ar hygyrchedd ac fe'u cynghorwyd eu bod yn cael eu harchwilio'n llawn gan yr RNIB ac yn mynd y tu hwnt i gydymffurfio.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd diffyg ffocws ar ansawdd yr adeiladu o bosibl pan fo'r ffocws ar hygyrchedd ac effeithlonrwydd ynni. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod safon yr adeilad yn uwch nag unrhyw adeiladau sector preifat safonol a bod y Cyngor yn gosod y safon ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat; ychwanegodd fod pobl yn eu prynu dros gartrefi a adeiladwyd gan Persimmon a Redrow. Ychwanegodd swyddogion fod ansawdd yn ganolog i'r datblygiad, bod safon Caerdydd wedi'i datblygu ac mai dim ond un rhan ohoni yw effeithlonrwydd ynni, ynghyd â Chreu Lleoedd. Gwahoddwyd yr Aelodau i ymweld ag un o gartrefi'r arddangos.

Cymeradwyodd yr Aelodau'r Aelod Cabinet a'r swyddogion ar y weledigaeth, ond roeddent yn pryderu am y fforddiadwyedd a'r benthyca sydd eu hangen. Esboniodd y swyddogion fod y penderfyniadau'n cael eu gwneud ar fforddiadwyedd a bod yn rhaid dangos tystiolaeth o hyn; mae tai cymdeithasol a adeiledir o'r newydd yn dod â refeniw. Mae rhai penderfyniadau allweddol i'w gwneud ac mae llawer o brofiad i'w gymryd i mewn i Gaerdydd Fyw. Cyfeiriodd yr Aelodau at y cap ar renti ac esboniodd y swyddogion eu bod yn aros am y penderfyniad ar yr adolygiad.

Trafododd yr Aelodau uchder blociau o fflatiau ac eglurodd swyddogion y broses o wneud a chynllunio lleoedd a'r hyn sy'n dderbyniol; gan ychwanegu bod y broses cyn ymgeisio yn fuddiol, er ei bod yn cymryd llawer o amser i ystyried pobl leol ac i dderbyn sylwadau i'r tîm dylunio. Nodwyd eu bod yn dechrau gyda golwg amlinellol ar safleoedd ac y gall fod cynnydd/lleihad yn y dwysedd wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, maent yn ceisio sicrhau bod hyblygrwydd yn yr ystyriaeth ac roedd swyddogion yn sicrhau'r Aelodau y byddent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses gyda chyfathrebu cynnar a chlir.

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 80 : BUSNES Y PWYLLGOR

Amlinellodd y Prif Swyddog Craffu y Flaenraglen Waith i Aelodau a drafododd eitemau a oedd yn dod i gyfarfodydd yn y dyfodol.

Esboniodd y Prif Swyddog Craffu fod angen Aelod arall ar gyfer y Panel Perfformiad, neu fe fyddai angen i Adroddiad Perfformiad chwarter 4 ddod yn ôl i'r Pwyllgor llawn. Cysylltid ag Aelodau drwy e-bost a'u gwahodd i ymuno â'r Panel Perfformiad.

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am ohebiaeth i'r Aelodau a chawsant wybod y byddai'r Aelodau'n cael y newyddion diweddaraf ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Rhenti.

## 81 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

## 82 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher 1af Mai am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm